

LIC25-61

BWYD, CYMRU

CYNHYRCHION A REOLEIDDIR, CYMRU

YCHWANEGION AT FWYDYDD ANIFEILIAID

Pennu statws awdurdodi: awdurdodi'r defnydd o baratoad *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-1079 fel ychwanegyn bwyd lloi (ar gyfer magu a phesgi), pob rhywogaeth anifeiliaid cnoi cil arall (ar gyfer magu a phesgi), a *chamelidae* (ar gyfer magu a phesgi)

Nodyn egluro

(nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r penderfyniad)

Gwnaed y penderfyniad hwn ar gyfer Cymru gan Weinidogion Cymru yn arfer y pwerau a roddwyd gan Erthygl 9 o Reoliad [\(EC\) Rhif 1831/2003](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 2003/1831).

Mae'n awdurdodi'r defnydd o baratoadau *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-1079, sy'n perthyn i'r categori 'zootechnical additives' ac i'r grŵp swyddogaethol 'gut flora stabilisers', fel ychwanegyn bwyd lloi (ar gyfer magu a phesgi), pob rhywogaeth arall o anifeiliaid cnoi cil (ar gyfer magu a phesgi), a *chamelidae* (ar gyfer magu a phesgi). Mae telerau'r awdurdodiad a'r amodau y mae'r ychwanegyn bwyd anifeiliaid wedi'i awdurdodi oddi tanynt wedi'u nodi yn yr Atodlen.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad [\(EC\) Rhif 178/2002](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor sydd yn gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau mewn materion diogelwch bwyd (EUR 2002/178).

Mae'r paratoad *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-1079 eisoes wedi'i awdurdodi fel ychwanegyn bwyd ar gyfer:

- pesgi cywion ieir a mân rywogaethau dofednod;
- pob math o foch ac eithrio hychod a moch bach wedi'u diddyfnu, a phob mân rywogaeth o foch
- hychod a moch bach; a
- phesgi tyrcwn.

Mae awdurdodi'r paratoad ar gyfer y defnyddiau hyn, a'r telerau ac amodau y maent wedi'u hawdurdodi oddi tanynt, fel ag yr oeddent ar 31 Mawrth 2025, yn parhau i

gael effaith yn unol â rheoliad 23 (arbedion a darpariaeth drosiannol: cyffredinol) Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cynhyrchion a Reoleiddir) (Diwygio, Dirymu, Darpariaeth Ganlyniadol a Throsiannol) 2025 ac mae manylion i'w cael ar y [Gofrestr Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid](#).

Penderfyniad

Cymhwyso a dod i rym

- Mae'r penderfyniad hwn yn berthnasol i Gymru, a daw i rym ar 13eg Hydref 2025.

Dehongliad

- Mae unrhyw ymadrodd a ddefnyddiwyd yn y penderfyniad hwn ac sy'n cael eu defnyddio yn Rheoliad (EC) Rhif 1831/2003 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ychwanegion i'w defnyddio mewn maeth anifeiliaid (EUR 2003/1831), yn rhannu'r un ystyr ag sydd ganddynt yn y Rheoliad hwnnw.

Pennu statws awdurdodi *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-1079

- Mae'r defnydd o'r paratoad *Saccharomyces cerevisiae* CNCM I-1079 a bennir yn yr Atodlen, sy'n perthyn i'r categori 'zootechnical additives' ac i'r grŵp swyddogaethol 'gut flora stabilisers', wedi'i awdurdodi fel ychwanegyn maeth anifeiliaid yng Nghymru, yn ddarostyngedig i'r amodau a'r gofynion a nodir yn yr Atodlen.

Sarah Murphy

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2025

ATODLEN

Ychwanegyn	<i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-1079
Rhif adnabod	4d1703
Deiliad yr awdurdodiad	Danstar Ferment AG (Y Swistir)
Categori yr ychwanegyn	Zootechnical additives
Grŵp swyddogaethol	Gut flora stabilisers
Cyfansoddiad yr ychwanegyn	Paratoad solet o <i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-1079 sy'n cynnwys o leiaf: <ul style="list-style-type: none"> • 2.0×10^{10} CFU/g (Heb araen) • 1.0×10^{10} CFU/g (Gydag araen)
Nodweddu'r sylweddau gweithredol	Celloedd hyfyw o <i>Saccharomyces cerevisiae</i> CNCM I-1079
Dull dadansoddol ¹	Cyfrif: dull plât arllwys gan ddefnyddio agar echdynnyn burum glwcos <i>chloramphenicol</i> (BS EN 15789: 2021) ² Adnabod: dull adwaith cadwyn <i>polymerase</i> (PCR) (DD CEN / TS: 15790:2008) ³

¹ Mae manylion y dulliau dadansoddi wedi'u nodi yn y ddogfen sydd â'r cyfeirnod "Ares(2015)76595 - 09/01/2015", ac a ddiweddarwyd ddiwethaf ar 6 Mehefin 2016, sydd ar gael gan y Labordy Cyfeirio yn y cyfeiriad canlynol: https://joint-research-centre.ec.europa.eu/reports-and-technical-documentation/fad-2010-0121_en.

² BS EN 15789:2021 "Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of *Saccharomyces cerevisiae* used as feed additive". Cyhoeddwyd gan Sefydliad Safonau Prydain ar 30 Tachwedd 2021 (ISBN 978 0 580 99832 4). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

³ DD CEN/TS:15790:2008 "Animal Feeding Stuffs. PCR typing of probiotic strains of *Saccharomyces cerevisiae* (yeast)". Cyhoeddwyd gan Sefydliad Safonau Prydain ar 31 Ionawr 2009 (ISBN 978 0 580 61806 2). Ar gael gan y Sefydliad Safonau Prydeinig <https://knowledge.bsigroup.com>.

Rhywogaeth neu gategori yr anifail ⁴	Lloi (ar gyfer magu a phesgi) Pob rhywogaeth arall o anifeiliaid cnoi cil (er mwyn magu a phesgi) Camelidae (ar gyfer magu a phesgi)	
Uchafswm oedran	Dim	
Unedau sy'n ffurfio cytrefi (CFU) o'r ychwanegyn / kg o fwyd anifeiliaid cyflawn gyda chynnwys lleithder o 12%.	Isafswm cynnwys	1 × 10 ⁹ CFU/kg
	Uchafswm cynnwys	Dim
<i>Darpariaethau eraill</i>	Rhaid nodi'r amodau storio a'r sefydlogrwydd o dan amodau gwres yn y cyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio'r ychwanegyn yn ogystal â'r gofynion o ran o gymysgedd.	

⁴ Os defnyddir yr ymadroddion hyn sydd hefyd yn cael eu defnyddio yn Atodiad IV o [Reoliad y Comisiwn \(EC\) Rhif 429/2008](#) ar reolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad [\(EC\) Rhif 1831/2003](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran paratoi a chyflwyno ceisiadau ac asesu ac awdurdodi ychwanegion bwyd anifeiliaid (categoriâu a diffiniadau o anifeiliaid targed ac yn y blaen), maen nhw'n rhannu'r un ystyr ag sydd ganddynt yn yr Atodiad hwnnw.